Cadw

# Croeso i Gastell Cydweli

Y man lle lladdwyd Gwenllian, tywysoges a rhyfelwraig

## Beth i'w weld yng Nghastell Cydweli


1. Stop! Pwy sy 'na? Roedd y porthdy mawreddog hwn yn creu argraff fawr ar ffrindiau... ac yn atal gelynion, diolch i amddiffynfeydd peryglus fel y bont godi, agennau saethau, rhwyllwaith pren trwm a, phe baen nhw'n cyrraedd yn ddigon pell, cawodydd o daflegrau'n cael eu gollwng trwy dyllau llofruddio yn nenfwd y coridor.
2. Trysorwch y cyfle i ganfod mynedfa ystafell ddiogel y castell, wedi'i chuddio o dan eich traed. Byddai'n llawn arian a phethau gwerthfawr eraill wedi'u talu'n drethi. Dychmygwch yr olygfa!
3. Ewch i lawr i'r is-lawr tywyll. Sleifia'r unig olau dydd trwy agennau cul. Ai carchar oedd yma? Tybed pwy biau'r ôl llaw sydd ar y wal?
4. Edrychwch yn ofalus ar bedwar tŵr y ward fewnol. Wyddon ni ddim pam, ond mae pob un yn wahanol. Allwch chi weld pa un sydd ar siâp aren?
5. Crwydrwch y rhodfeydd pen mur a mwynhau'r golygfeydd gwych dros dref Cydweli a'r wlad o'i hamgylch.
6. Dychmygwch orfod bwydo llond castell o bobl! Roedd yn dipyn o gamp — mae'r ffyrnau bara hyn yn enfawr!
7. Cewch dalu teyrnged i Gwenllian, tywysoges a rhyfelwraig, wrth ei chofeb arbennig.
8. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Kidwelly Croeso leaflet WELSH v3.indd 1
07/05/2024 16:19